# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Non Dafydd (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas Massie Fowlie, Kenneth P Hughes, T Ll Hughes MBE, R Ll Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Pennant Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Prif Swyddog Eiddo ac Asedau (MH),<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu Gwasanaethau Pwyllgorau (FT). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr Alun Tobias – Hugh James Solicitors |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Carwyn Jones, John Ifan Jones, A M Jones, Jackie Lewis a Nicola Roberts<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid |

**1. DATGAN DIDDORDEB**

Fe wnaeth y Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol yn gysylltiedig ag Eitem 3 - Canolfan Addysg y Bont - Atgyweirio'r To gan ei fod yn Llywodraethwr yng Nghanolfan Addysg y Bont. Dywedodd ei fod wedi derbyn cyngor cyfreithiol a'i fod yn cael cymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais.

## 2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".**

## 3. CANOLFAN ADDYSG Y BONT - ROOF REPAIRS

Cyflwynodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo'r adroddiad a oedd eisoes wedi cael ei rannu â'r Aelodau.

Roedd yr adroddiad yn egluro'r opsiynau cyfreithiol sydd ar gael i'r Cyngor er mwyn ceisio adennill y gost o adfer y to sedwm yng Nghanolfan Addysg y Bont, Llangefni.

Nodwyd bod y gwaith ar y to wedi'i gwblhau ym mis Ionawr 2023, ac roedd cyfanswm y gost i'r Cyngor yn £2.6 m. Roedd y swm yma wedi cael ei ryddhau o gronfeydd wrth gefn y Cyngor.

Penodwyd cyfreithwyr arbenigol i gynghori'r Cyngor ar y posibilrwydd o adennill cost y gwaith adfer, a chomisiynwyd tyst arbenigol annibynnol.

Gan nad yw'r dystiolaeth derfynol yn ddigonol i gefnogi achos y Cyngor, mae'r Cyfreithwyr arbenigol (a'r Cwnsler) wedi cynghori yn erbyn cychwyn achos llys oherwydd y risg afresymol o gostau cyfreithiol sylweddol (hyd at £1.5m) pe byddai'r Cyngor yn aflwyddiannus.

Felly, roedd y swyddogion yn argymell peidio mynd â'r mater i'r llys. Eglurwyd hefyd, yn ogystal â'r gost o adfer y to, bod £60k wedi cael ei wario ar gostau cyfreithiol a thyst arbenigol.

Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau holi'r Swyddogion, Arweinydd y Cyngor a'r aelodau perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion a oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod i ben am at 2.40 pm

**CYNGHORYDD GLYN HAYNES**
**CADEIRYDD**